Rhif: WG33753

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion

# Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid

Rhagfyr 2017

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlraint y Goron ISBN digidol: 978-1-78903-148-5

## Crynodeb Gweithredol

- Mae pryderon wedi'u mynegi nad yw anghenion lles rhai anifeiliaid sy'n cael eu cadw gan Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid (ADA), gan gynnwys syrcasau, yn gallu cael eu diwallu mewn amgylchedd teithiol.
- Ceir amrywiaeth o wahanol fathau o ADA ac nid oes trefn drwyddedu safonol na gofyn i gynnal archwiliad rheolaidd. Mae'n rhaid inni benderfynu a oes angen newid y polisi a/neu'r gyfraith yng Nghymru i amddiffyn lles anifeiliaid sy'n cael eu cadw mewn ADA.
- Gofynnodd yr ymgynghoriad am safbwyntiau ynghylch cynllun trwyddedu neu gofrestru ar gyfer ADA yng Nghymru.
- Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn hefyd ynghylch gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.
- Cafwyd 70 o ymatebion cynhwysfawr i'r ymgynghoriad. Cafwyd hefyd 892 o ymatebion tebyg i'w gilydd, yn ymdrin yn unig â Chwestiwn 8 (ar wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau).
- Roedd y rhan fwyaf o'r rheini atebodd yn cytuno'n fras â'r diffiniad canlynol o Arddangosfa Deithiol o Anifeiliaid: *'Unigolion, grwpiau neu fentrau masnachol sy'n teithio i arddangos anifeiliaid domestig a/neu gwyllt, at ddiben adloniant, therapi, addysg a/neu bwrpas arall'.* Roedd ambell un yn teimlo ei fod yn ddiffiniad rhy eang ac roedd eraill yn teimlo y dylid peidio â chynnwys rhai categorïau penodol o anifeiliaid, gan ddibynnu ar eu defnydd.
- Roedd 42 o ymatebwyr yn teimlo bod arddangos anifeiliaid mewn ADA yn cael effaith negyddol ar agweddau plant a phobl ifanc at anifeiliaid. Cyfeiriodd rhai o'r lleill at y buddiannau addysgol y mae Arddangosfeydd uchel eu hansawdd sy'n cael eu rhedeg yn dda yn eu cynnig.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo y byddai Arddangosfeydd yn ei chael hi'n anodd cynnal mesurau cadwraethol gorfodol.
- Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gytûn y dylai fod yna drefn ar gyfer trwyddedu neu gofrestru Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid. Trwyddedu a ffafriwyd gan y mwyafrif.
- Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno y dylai rhai ADA gael eu heithrio rhag gorfod cael eu trwyddedu neu gofrestru.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn credu y dylid gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau
- Nid oedd yr ymatebwyr yn credu y câi cyflwyno cynllun ar gyfer trwyddedu neu gofrestru Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid effaith negyddol ar y Gymraeg.
- Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn, y cyntaf o'i fath ar y pwnc hwn, eu defnyddio i benderfynu ar y camau nesaf.

# 1 Yr Ymgynghoriad

## 1.1 Gwybodaeth Gefndir

Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn gosod allan ein cynllun ar gyfer parhau i gynnal gwelliannau parhaol yn safonau iechyd a lles anifeiliaid sy'n cael eu cadw.

Mae pryderon wedi'u mynegi nad yw anghenion lles rhai anifeiliaid sy'n cael eu cadw gan Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid, gan gynnwys syrcasau, yn gallu cael eu diwallu mewn amgylchedd teithiol. Mae'n rhaid inni benderfynu a oes angen newid y polisi a/neu'r gyfraith yng Nghymru i amddiffyn lles anifeiliaid sy'n cael eu cadw mewn Arddangosfa Deithiol.

Ym mis Rhagfyr 2015, cynhalion ni adolygiad annibynnol o'r defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Gwnaeth yr adolygiad gan Harris *et al*[1], ystyried y dystiolaeth ynghylch lles corfforol a meddyliol anifeiliaid gwyllt a/neu annomestig yn ogystal ag ymddygiad yr anifeiliaid hynny a'r hyn a wneir i gyfoethogi'u hamgylchedd. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad oes modd diwallu anghenion anifeiliaid gwyllt sy'n cael eu cadw mewn amgylchedd teithiol i'r un graddau ag mewn amgylchedd llonydd.

Ar 15 Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, Ddatganiad Ysgrifenedig sy'n esbonio'i hawydd ei weld cynllun i gofrestru neu drwyddedu pob ADA yng Nghymru, a bod Llywodraeth y DU a hithau'n gweithio mewn ffordd debyg ar hyn. Bydd cynllun o'r fath a fyddai'n caniatáu archwiliadau i sicrhau bod safonau lles da yn cael eu cynnal, yn gallu cymryd lle Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoliad) 1925 sydd wedi colli'i chyfoesedd erbyn hyn.

**Y sefyllfa ar hyn o bryd yng Nghymru**

Ceir amrywiaeth o wahanol fathau o Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid ac nid oes trefn drwyddedu safonol na gofyn i gynnal archwiliad rheolaidd. Mae rhai ohonynt wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoliad) 1925. Mae'r cofrestriad hwn yn para am oes ac nid yw'n gofyn am gynnal archwiliadau. O'r herwydd, mae'n annhebygol bod safonau lles llawer o anifeiliaid perfformio yng Nghymru'n cael eu hasesu.

Mae rhai arddangosfeydd wedi'u cofrestru o dan y Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 os ydy'r arddangosfa'n cadw anifeiliaid a enwir yn y Ddeddf. Fodd bynnag, ni fyddai archwiliad o reidrwydd yn ystyried safonau lles anifeiliaid eraill yr ADA oni bai eu bod yn cael eu henwi yn y Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976.

**Trwyddedu:** Pan fydd rhywun yn gofyn am gael ei gymeradwyo ac yn ymrwymo i rai amodau a chyfyngiadau. Efallai y bydd angen i drwyddedai dalu ffi a phrofi ei allu mewn rhyw ffordd er mwyn cael trwydded.

**Cofrestru** - Ffordd i roi gwybod i'r awdurdodau'ch bod yn bwriadu gwneud rhywbeth. Codir ffi fel arfer. O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, gall cofrestriad bara un i dair blynedd.

[1] http://gov.wales/docs/drah/publications/160715-performing-animals-en.pdf

## 1.3 Y Sefyllfa mewn Gwledydd Eraill

Mae Gweriniaeth Iwerddon yn cynnwys Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid (a ddiffinnir fel 'Hawk Walks, Mobile Zoos and other similar operations') yn ei 'Irish Standards of Modern Zoo Practice (2016)' o dan ei diffiniad o 'sw' ac mae'n eu harchwilio yn unol â hynny o 2017. Yr amcan yw gwella lles anifeiliaid a sicrhau bod archwiliadau boddhaol yn cael eu cynnal. Daw Circuses (Prohibition on Use of Wild Animals) Regulations 2017 Gweriniaeth Iwerddon i rym ar 1 Ionawr 2018 a bydd yn gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ar 11 Mai 2017 ei bwriad i gyflwyno Bil Syrcasau i wahardd defnyddio (perfformio, arddangos neu ddangos) unrhyw anifail gwyllt mewn syrcas deithiol yn yr Alban. Mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir wrthi'n ystyried y Bil. Cytunodd y Pwyllgor ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Ngham 1 ac y mae bellach yn destun craffu yng Ngham 2.

Yn Lloegr, mae'r Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012 yn ei gwneud yn ofynnol trwyddedu pob syrcas sydd ag anifeiliaid gwyllt ynddi sy'n perfformio yn Lloegr. Ar hyn o bryd, dim ond dwy syrcas sydd wedi'u trwyddedu. Nid yw'r rheoliadau'n ymdrin â syrcasau sy'n defnyddio anifeiliaid domestig fel ceffylau neu gŵn, ac nid oes gofyn i archwilwyr ystyried anghenion lles yr anifeiliaid domestig sy'n cael eu defnyddio gan fentrau trwyddedig. Mae Defra'n dweud yn 'Next steps – The review of animal establishments licensing in England'[2], a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2017 ei bod am weithio'n glos â'r Llywodraethau Datganoledig.

## 1.4 Pwrpas yr Ymgynghoriad

Mae pryderon wedi'u mynegi bod Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoliadau) 1925 wedi colli ei pherthnasedd, ei bod yn rhy gyfyngus ac nad yw'n briodol ar gyfer yr ADA fodern. Rydyn ni'n dal i ystyried yr opsiynau sydd ar gael i ni a byddwn yn defnyddio'r ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf hwn i'n helpu i gynllunio'r ffordd ymlaen. Dyma rai o'r prif feysydd y gofynnon ni i'r ymatebwyr eu hystyried:

**Diffiniad:** Rydyn ni wedi cynnig bod Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid yn cael eu diffinio fel a ganlyn: *'Unigolion, grwpiau neu fentrau masnachol sy'n teithio i arddangos anifeiliaid domestig a/neu gwyllt, at ddiben adloniant, therapi, addysg a/neu bwrpas arall'.* Hoffem ichi ystyried a yw hwn yn ddiffiniad digon cryf. A ddylem gynnwys eithriadau neu ofynion ychwanegol, gan gymryd i ystyriaeth y rhywogaeth, maint y casgliad, natur y gweithgarwch ac ati?

**Cadwraeth ac Addysg:** Mae amrywiaeth o anifeiliaid yn cael eu cadw mewn ADA, gan gynnwys llawer o rai egsotig. Gallai ADA deithio i ysgol/sefydliad addysgol, cyfleusterau gofalu, partïon, digwyddiadau corfforaethol, ffeiriau a digwyddiadau allanol eraill. Hoffem ystyried y dystiolaeth bod yr ADA yn cyfrannu at gadwraeth a hoffem glywed eich barn a ddylai hyn fod yn ofyn hanfodol mewn unrhyw gynllun trwyddedu neu gofrestru. Mae ymrwymiad/rhwymedigaeth cadwraethol ac addysgol ar swau eisoes o dan y system trwyddedu swau.

**Rheoli Clefydau:** Mae rhai ADA yn defnyddio anifeiliaid sy'n gallu anafu pobl ac anifeiliaid eraill. Gallai hyn fod yn anaf heblaw anaf corfforol, gan y gall rhai anifeiliaid gario bacteria neu bathogenau eraill y gellir eu trosglwyddo i bobl neu anifeiliaid eraill. Carem glywed eich

[2] https://www.gov.uk/government/consultations/animal-welfare-reviewing-animal-establishments-licensing-in-england

barn ynghylch sut y gallai system drwyddedu neu gofrestru sicrhau bod y fath risg yn cael ei gadw mor fach â phosib.

## 1.5 Anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cael sawl ple gan y cyhoedd a mudiadau'r trydydd sector i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Nid oes gan Gymru unrhyw syrcasau, er eu bod yn ymweld â'r wlad. Rhywogaethau pori a ddefnyddir gan y syrcasau hyn gan fwyaf, fel lamas, alpacas, ceirw Llychlyn, gwartheg a sebraod. Maen nhw hefyd yn cadw anifeiliaid domestig fel ceffylau neu gŵn.

Mae Llywodraeth y DU wedi ystyried gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau ers sawl blwyddyn am resymau moesol, ond nid yw wedi cynnig deddfwriaeth eto. Yn ei Datganiad Ysgrifenedig ar 15 Rhagfyr 2016, ni wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ddiystyru'r posibilrwydd y gallai Cymru ystyried gwahardd anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau a/neu weithio gyda Llywodraeth y DU ar ddeddfwriaeth.

Rydyn ni'n awyddus i glywed eich barn chi ar y mater. Felly, yn ogystal â chwestiynau am Arddangosfeydd Teithiol, gofynnon ni am unrhyw wybodaeth ychwanegol, sylwadau neu dystiolaeth y gallai ymatebwyr eu rhoi inni a allai fod yn ddefnyddiol.

## 1.6 Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cyffredinol:**

1. Rydym wedi cynnig y diffiniad canlynol o ADA: '*Unigolion, grwpiau neu fentrau masnachol sy'n teithio i arddangos anifeiliaid domestig a/neu gwyllt, at ddiben adloniant, therapi, addysg a/neu bwrpas arall'.* A ydych chi'n cytuno â'r dull hwn o weithredu? Os gwnaethoch ateb "Nac ydw", esboniwch pam.
2. Ydych chi'n teimlo bod dangos anifeiliaid mewn ADA yn cael effaith bositif neu negyddol ar ddatblygiad agweddau ystyriol a chyfrifol at anifeiliaid ymhlith plant a phobl ifanc?
3. Mae'n ofyn gorfodol ar swau trwyddedig eu bod yn cynnal mesurau cadwraethol, gan gynnwys hyrwyddo addysg ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o gadwraeth. A ddylai fod disgwyl ar ADA i gynnal gweithgarwch tebyg?
4. Rydym hefyd yn poeni am iechyd a diogelwch y bobl sy'n ymwneud ag ADA a'r anifeiliaid a gedwir ganddynt. Os ydych yn berchen ar ADA neu'n gweithio i un, pa fesurau ydych chi'n eu cymryd i gadw'r risg o anaf neu glefyd i bobl ac i anifeiliaid mor fach â phosibl?

**Trwyddedu/Cofrestru:**

5. Ydych chi'n credu y dylai ADA, syrcasau ag anifeiliaid yng Nghymru neu'r ddwy sy'n dangos eu hanifeiliaid yng Nghymru, gael eu trwyddedu neu eu cofrestru? *(Gweler y nodyn ar dudalen 5 am ddiffiniadau)*

   Trwyddedu? Ydw/Nac ydw

   Cofrestru? Ydw/Nac ydw

6. Os ydych chi'n credu y dylai ADA a/neu syrcasau gael eu trwyddedu neu eu cofrestru, ydych chi'n credu y dylen nhw orfod talu ffi trwyddedu neu gofrestru? Os ydych, esboniwch pam.
7. Mae'r diffiniad a gynigir ar gyfer ADA yn un eang iawn. Ydych chi'n credu y dylai fod yna eithriadau mewn unrhyw gynllun trwyddedu neu gofrestru?

**Anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau:**

8. Ar hyn o bryd, nid oes gennym syrcasau yng Nghymru ond maen nhw'n ymweld â ni. Nid yw Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig wedi diystyru'r posibilrwydd y gallai Cymru wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Ydych chi'n credu y dylai gwaharddiad gael ei ystyried? Ydw/Nac ydw

   Rhowch eich rhesymau am hyn.

**Y Gymraeg:**

9. Hoffem gael eich barn am y ffordd y gallai trwyddedu neu gofrestru Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid effeithio ar y Gymraeg, yn benodol ynglŷn â:

   chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a

   peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
10. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?
11. Nodwch hefyd sut y credwch y gellir llunio'r polisi arfaethedig neu ei newid fel y gall:

    effeithio'n gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a

    dim effeithiau er gwaeth o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhoddwyd cyfle i ymatebwyr hefyd gynnig sylw ar faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin yn benodol â nhw yn y ddogfen ymgynghori:

12. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi.

## 2 Yr Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cafwyd 70 o ymatebion cyflawn i'r ymgynghoriad a chafwyd 892 o ymatebion hefyd, tebyg i'w gilydd, oedd yn ateb Cwestiwn 8 yn unig (ar wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau). Rydym wedi rhestru'r cyrff a'r sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad A. Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr inni beidio â chyhoeddi'u manylion personol ac rydym wedi parchu hynny.

Ni wnaeth pawb ateb y cwestiynau'n uniongyrchol. Yn yr achosion hynny, ac i bwrpas y ddogfen hon, rydym wedi neilltuo'r atebion i'r cwestiynau y teimlir eu bod yn eu hateb orau. Hefyd, lle y gwnaeth ymatebwr ateb cwestiynau penodol, mae rhai o'r atebion wedi'u neilltuo i gwestiwn arall lle gwelir bod hynny'n briodol.

**Cwestiwn 1: Rydym wedi cynnig y diffiniad canlynol o ADA: ’Unigolion, grwpiau neu fentrau masnachol sy'n teithio i arddangos anifeiliaid domestig a/neu gwyllt, at ddiben adloniant, therapi, addysg a/neu bwrpas arall’. A ydych chi'n cytuno â'r dull hwn o weithredu? Os gwnaethoch ateb "Nac ydw", esboniwch pam.**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno'n fras â'r diffiniad. Wrth wneud, awgrymodd rhai, gan gynnwys RSPCA Cymru, y dylid ei newid: “*The RSPCA largely agrees with this definition, except for the inclusion of ‘travel’. The RSPCA would like to see better regulation of all exhibited animals (including film, TV, theatre etc) and we urge the Welsh Government to replace the outdated and ineffective Performing Animals (Regulation) Act 1925 with a licensing system that adequately protects all animals used in this industry. Removing ‘travel’ from the definition would capture the activities that concern the RSPCA, and also dispense with the need to define how often or far animals/the collection have to be transported before being classed as an MAE”.*

Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai rhai Arddangosfeydd Teithiol, gan ddibynnu ar eu diben, gael eu heithrio. Yn eu plith y rheini sy'n defnyddio anifeiliaid at ddibenion elusennol neu di-elw. Roedd eraill yn teimlo y gallai ADA sy'n cadw rhai mathau penodol o anifeiliaid, fel da byw er enghraifft, gael eu heithrio.

Mae'r Gynghrair Cefn Gwlad yn credu bod y diffiniad yn rhy eang a bod perygl, o'r herwydd, i unrhyw system drwyddedu neu gofrestru fynd yn rhy anhylaw ac anghymesur. *“We would also like to see an exemption for those training and exhibiting animals for “bona fide military, police, agricultural or sporting purposes”, as is the case under the 1925 Act. Unless such an exemption is included any regime applying to MAEs would include agricultural shows, field trials, sheep dog trialling, etc.”*

Mae'r Kennel Club hefyd yn teimlo bod y diffiniad yn rhy gyffredinol: “*No, It is the view of the Kennel Club that this definition is too broad and too vague. For example, we would be unsure, based on this definition, if people travelling to dog shows (including family fun days in parks and so forth), would fall within this definition. They would be individuals travelling with a domestic pet. This could be for entertainment e.g. for fun, as a hobby or for sport if taking part in agility for example. Given that there are over 180 Kennel Club registered dog shows alone in Wales, each attracting approximately 350 dogs, with 2-3 people per dog, this would, we believe, create an unnecessary burden placed on them. We are hoping this is not the intention of the regulations”.*

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n teimlo bod dangos anifeiliaid mewn ADA yn cael effaith bositif neu negyddol ar ddatblygiad agweddau ystyriol a chyfrifol at anifeiliaid ymhlith plant a phobl ifanc?**

Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn bod dangos anifeiliaid mewn Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid yn cael effaith negyddol ar agweddau plant a phobl ifanc at anifeiliaid. O'r 70 a ymatebodd, roedd 42 yn credu eu bod yn cael effaith ddrwg. Roedd 20 o ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cael effaith dda. Nid oedd gan y gweddill farn am y mater.

Mae Four Paws UK yn cytuno'n llwyr bod ADA yn cael effaith negyddol ar blant a phobl ifanc: *"Several studies have highlighted the negative educational consequences of wild animal shows. Using wild animals for demonstrations and rides may portray wild animals as pets, thereby nullifying conservation messages and encouraging the public to exploit wild animals for personal benefit. Circuses and other MAEs are not conducive to promoting conservation messages because they typically justify their use of animals by asserting that captivity is preferable to the wild".*

Mae ymatebwyr eraill yn rhannu'n un farn. Mae RSPCA Cymru yn argymell y dylai fod gan Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid rôl i rannu negeseuon gofal positif: *"The recognition and appreciation of animals as sentient beings is essential in the promotion and development of empathy towards them in young people. On balance, the RSPCA believes that MAEs are more likely to have a negative impact on the development of respectful and responsible attitudes towards animals in children and young people unless a five welfare needs assessment is undertaken in a comprehensive manner that ensures positive care messages are communicated to the audience, these messages are explicit in the exhibition (display) or demonstration of the MAE, and they are clearly demonstrated in practice."*

Mae'r Groes Las yn mynegi barn debyg gan gredu y dylai fod gan ADA bwrpas addysgol clir: "*There is evidence that the use of animals in performances negatively affects attitudes and may in fact compromise educational and/or conversation messages. We would like any mobile animal exhibit displaying non-domesticated species to have a clear educational purpose relevant to the species used in the activity. We would like any mobile animal exhibit displaying non-domesticated species to have a clear educational purpose relevant to the species used in the activity."*

Cafwyd ymatebion o ddiwydiant yr Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid yn tynnu sylw at fuddiannau Arddangosfeydd o safon uchel. Mae ymatebydd anhysbys yn credu bod hyn yn dibynnu ar safon yr arddangosfa: "*Where the MAE is of high quality the results are very positive indeed. MAEs can provide people, not merely children and young people, the opportunity to observe the animal with no technical mediation. Seeing first hand and often at close quarters, a creature one may not otherwise be able to, is when managed correctly, invaluable. It is both educational and entertaining (indeed separating the two can be problematic)."*

Roedd y Kennel Club yn credu bod nifer o fanteision i blant ifanc os ydy'r dysgu'n digwydd o dan amodau wedi'u rheoli: "*We believe it is important that children learn to be respectful and responsible to animals. This does not necessarily mean having to take the animals into schools."*

**Cwestiwn 3: Mae'n ofyn gorfodol ar swau trwyddedig eu bod yn cynnal mesurau cadwraethol, gan gynnwys hyrwyddo addysg ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o gadwraeth. A ddylai fod disgwyl ar ADA i gynnal gweithgarwch tebyg?**

Mae nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas Milfeddygon Prydain, yn teimlo y byddai gofyn gorfodol i gynnal mesurau cadwraethol yn anodd i Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid ei gynnal: *"Whilst we support the mandatory requirement for licensed zoos to undertake conservation measures, we do not believe that this will always be a reasonable expectation of MAEs. The focus of the majority of MAEs will be education, and conservation activities such as long term sustainable breeding and reintroduction are not likely to be realistic, or even desirable."*

Mae Undeb Amaethwyr Cymru o'r un farn: *"The FUW believes that the broad definition of MAEs may mean that conservation activities are highly unsuitable for some groups or organisations. Several Union members suggested that conservation should not be a crucial element of the proposals provided that educational commitments are met. The Union would also suggest that conservation should not be a crucial element of the proposals where livestock are shown for business purposes, such as selling, judging and the like".*

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai cadwraeth fod yn ofyn gorfodol a mynegir y farn honno gan y Dr Michael Kenneth Nicholls: *"YES, but also required that they demonstrate that they themselves understand what 'conservation' is and how public attitudes can be positively influenced. Merely displaying a barn owl to the public isn't per-se 'conservation' nor 'education'".*

Rhennir y farn hon gan Mr Chris Biggs: *"Yes, MAEs should be required to undertake conservation measures. Mobile zoos, bird of prey shows and other similar businesses carry out exactly the same activity as zoos (exhibition of animals to the public) but are held to none of the same legal obligations. I therefore suggest that the use of wild animals in MAEs is subject to regulation under the Zoo Licensing Act (a position recently adopted in the Republic of Ireland). Suggesting that these companies should be 'required' to carry out conservation and educational activities pre-supposes that all MAEs have the potential to deliver such a role, and it is hard to see how meaningful conservation and education can be carried out when the primary use and displays of these animals is for entertainment and, in the many cases driven by a desire for financial gain. Indeed many question the validity of the claims that even static zoos make to meaningful conservation and education".*

**Cwestiwn 4: Rydym hefyd yn poeni am iechyd a diogelwch y bobl sy'n ymwneud ag ADA a'r anifeiliaid a gedwir ganddynt. Os ydych yn berchen ar ADA neu'n gweithio i un, pa fesurau ydych chi'n eu cymryd i gadw'r risg o anaf neu glefyd i bobl ac i anifeiliaid mor fach â phosibl?**

Dim ond nifer fach o'r ymatebwyr atebodd y cwestiwn hwn. O'r rheini yn y diwydiant Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid a atebodd, roedd y rhan fwyaf eisoes yn rhoi polisïau iechyd a diogelwch ar waith.

Mae Mid Wales Falconry yn cynnal asesiad risg cyn pob sioe. *"Birds of prey, humans always wish to handle a bird of prey, which is fine as long as it is under supervision and the correct glove etc is in place, The harm to the birds and a potential disease risk is when humans stroke the bird, yet on my travels this seems to be common practise and one which should be avoided. Otherwise due to the strict regulations that shows operate within, risk assessments have to be conducted and acted upon. In addition usually but not always great*

*attention is paid to the insurance cover of the business. For professional businesses this is usually sufficient, this should be standard for all owner of birds of prey."*

Fodd bynnag, fe fynegwyd rhai pryderon ynghylch iechyd a diogelwch, gan gynnwys y canlynol gan RSPCA Cymru: *"The RSPCA has concerns about the risk of injury and disease in MAEs. Particularly when direct handling takes place, species listed on the Schedule to the Dangerous Wild Animals Act 1976 (DWA) are involved and where there is a lack of staff competency in the animals being used (including spotting subtle signs of stress and anxiety) or insufficient numbers of competent staff".*

Tynnodd Ffederasiwn y Diwydiant Anifeiliaid Anwes sylw at yr wybodaeth y byddai angen i ADA feddu arni: "*MAE presenters should be able to demonstrate a level of knowledge regarding zoonotic disease and the safe management of this risk as well as having available for inspection all risk assessments, policy statements and method statements relating to their work."*

**Cwestiwn 5: Ydych chi'n credu y dylai ADA, syrcasau ag anifeiliaid yng Nghymru neu'r ddwy sy'n dangos eu hanifeiliaid yng Nghymru, gael eu trwyddedu neu eu cofrestru?**

Mae 52 o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai fod yna drefn ar gyfer trwyddedu Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid. Mae rhai o'r farn y dylai syrcasau gael eu gwahardd ac Arddangosfeydd Teithiol eu trwyddedu.

Mae'r RSPCA yn cytuno â hyn: *"The RSPCA believes that circuses should not be permitted to use animals…….. MAEs that use animals should be licensed, subject to strict licensing conditions, and unannounced inspections, at the home site and at events. Standards required for wild animals used in MAEs should be the same as that required for wild animals kept in licensed zoos, under the Zoo Licensing Act 1981. Of vital importance, are safeguards to ensure animals are exposed to minimal transport and given proper rest periods between use. Licensing officers need to be sufficiently trained, and penalties for unlicensed activities and breaches of conditions set at a level that will encourage compliance. Registration is not helpful and will not fulfil the aim of better protecting the welfare of animals used in MAEs. The registration scheme under the Performing Animals (Regulation) Act 1925 is widely recognised, including by those in the industry, as being wholly inadequate."*

Mae rhai ymatebwyr yn credu y dylai pob ADA gael ei chofrestru a'i thrwyddedu. Mae 38 yn credu y dylai Arddangosfeydd Teithiol gael eu cofrestru a 15 yn anghytuno â hynny. Ni chafwyd ateb gan y gweddill.

Nid yw'r Asiantaeth Diogelu Anifeiliaid yn credu y daw budd o'u cofrestru: *"We believe that a registration scheme for MAEs with wild animals would not bring about any meaningful improvement to the current system under the Performing Animals (Regulation) Act 1925. Our view, therefore, is that MAEs should be subject to licensing. In order to have a realistic expectation of meeting the requirements of the Animal Welfare Act 2006, limits should be imposed on the types of animals that could be used, as well as the duration and frequency of the events. Such a licensing scheme should also include prescriptive guidelines on transportation; temporary enclosures; handling; and hygiene protocols. There should be a straightforward process in place for local authorities to revoke licences when these conditions are not met."*

**Cwestiwn 6: Os ydych chi'n credu y dylai ADA a/neu syrcasau gael eu trwyddedu neu eu cofrestru, ydych chi'n credu y dylen nhw orfod talu ffi trwyddedu neu gofrestru? Os ydych, esboniwch pam.**

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu'n gyffredinol y dylai Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid a syrcasau gael eu trwyddedu neu eu cofrestru. Mae'r Dogs Trust *"strongly believes that anyone being licensed or being required to register should pay a fee for this service. These fees should be set by local authorities to allow them full cost recovery for their work. Included within this fee should be the ability for spot checks to be conducted by the authority to ensure compliance. We would recommend that charities should not be exempt from these fees; rather it may be appropriate for local authorities to offer a concession on the fees."*

Mae RSPCA Cymru'n credu y dylai fod rhyw fath o dâl yn gysylltiedig â'r system drwyddedu: *"Fees should be paid on a cost-recovery basis, covering all reasonable costs associated with administration, inspections and anticipated costs of enforcement. For example, the one-off exhibition of a single animal would likely carry lower fees than long-term, frequent exhibition of a large number of animals, as it would likely be cheaper to administer due to, for example, less frequent and shorter inspections."*

Mae rhai o'r ymatebwyr yn credu bod angen crisialu sut y byddai system drwyddedu'n gweithio ac a ddylid caniatáu eithriadau, er enghraifft, ar gyfer defnyddio cŵn therapi. Codwyd y pwynt hwn gan Canine Concern Scotland Trust: *"If an animal activity charges a fee for their service then it would be reasonable to charge a licence fee. Where, as in Therapet, we carry out a volunteer service without charge there should be no licence fee."*

Mae Urdd Syrcasau Prydain Fawr o'r farn y byddai ffi arall ar gyfer trwyddedu syrcasau/ADA yng Nghymru yn faich ariannol arall: *"Obviously a fee to cover costs has to be found and recovered from somewhere. With the regulations in England the circuses pay for all the inspections and their license, this is a very considerable amount of money so it would be financially hard on them if they had to pay again to operate in Wales or another devolved UK country. The same would apply with the devolved countries of the UK if other sectors/MAEs were to move across the country. For instance camel racing, reindeer for Christmas and many other MAEs crossing borders. So this needs more discussion and clarity."*

**Cwestiwn 7: Mae'r diffiniad a gynigir ar gyfer ADA yn un eang iawn. Ydych chi'n credu y dylai fod yna eithriadau mewn unrhyw gynllun trwyddedu neu gofrestru?**

Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu y dylai fod yna eithriadau mewn unrhyw gynllun trwyddedu neu gofrestru y cytunir arno. Ceir consensws bod y diffiniad yn rhy eang. Adlewyrchir hyn yn ymateb RSPCA Cymru: *"Anything lawfully done under the Animal (Scientific Procedures) Act 1986 could be considered for exemption. Zoos licensed under the Zoo Licensing Act 1981 should not be exempt. This is similar to the current situation where all trainers and persons responsible for public educational demonstrations are required to register under the Performing Animals (Regulation) Act 1925. Permanent housing of animals in licensed zoos are part of requisite zoo inspections, but the exhibition is generally not, particularly for those that occur outside the zoo premises."*

Mae rhai ymatebwyr yn credu y dylai elusennau, gan gynnwys anifeiliaid anwes sy'n cael eu cadw at ddibenion therapi, gael eu heithrio. Mae'r Animal Consultants and Trainers Association yn credu bod y diffiniad yn rhy eang: *Private individuals or charitable organisations acting at a very local level for philanthropic purposes, such as those*

*exemplified in Point 1, should be excluded. The emphasis should be on commercial activities and that is not clear under the current definition."*

**Cwestiwn 8: Ar hyn o bryd, nid oes gennym syrcasau yng Nghymru ond maen nhw'n ymweld â ni.   Nid yw Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig wedi diystyru'r posibilrwydd y gallai Cymru wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau.  Ydych chi'n credu y dylai gwaharddiad gael ei ystyried? Ydw/Nac ydw**

Mae llawer o'r ymatebwyr yn credu y dylid gwahardd anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau ac nad oes modd rhoi gofal priodol i anifeiliaid gwyllt mewn amgylchedd teithiol. Dyma oedd barn ymatebydd a oedd am aros yn ddienw: *"Circuses by their very nature are completely unsuitable for any live animal, as their needs cannot be met and restricting animals to cages is cruel and shows no respect for their natural needs by confining them and constantly transporting the animals from place to place is unnatural for them and can be seen by the animals behaviour when forced to love in this way."*

Mae gan PETA farn debyg: *"Yes, a ban on the use of wild animals in circuses must be brought forward as a matter of urgency. Extreme confinement and stress during transport – in combination with the use of psychologically and physically abusive training methods – inevitably compromise their welfare. Tigers are apex predators with home ranges of hundreds of square miles in the wild, yet circuses force them to spend most of their lives in transport cages that are barely bigger than their own bodies. In nature, grazing animals, such as zebras and camels, spend a large part of their day eating. Circuses cannot provide permanent outdoor paddocks for grazing, so these animals spend much of their time confined to indoor stalls or tied to transport vehicles. In addition, social species, such as elephants, are often kept in isolation, while those who are naturally solitary, such as tigers, are commonly kept in groups. In 2009, Animal Defenders International released undercover footage documenting that elephants in a circus exhibited a pattern of disturbed, abnormal types of behaviour such as rocking, swaying, and head-bobbing. Animal behaviourists believe these movements to be signs that an animal is suffering and unable to cope with his or her situation. This suffering is not specific to one circus but endemic to the industry. This view was echoed by a report commissioned by the Welsh Government, which concluded that "Life for wild animals in travelling circuses … does not appear to constitute either a 'good life' or a 'life worth living".*

Fodd bynnag, mae rhai a ymatebodd, fel yr Animal Consultants and Trainers Association, yn erbyn gwaharddiad: *"ACTA holds no specific brief for animals in circuses. However, as an organisation, we oppose a ban in principle believing that there is sufficient legislative control for circuses to be appropriately regulated. Two reports (Worthington and Radford) failed to find scientific justification for a ban on wild animals in (travelling) circuses and we remain unconvinced of the impartiality of the Harris report."*

Byddai ymatebydd anhysbys yn siomedig gweld syrcasau'n cael eu gwahardd yng Nghymru a mynegodd hyn yn ei ymateb: *"We are a touring circus that loves coming to Wales every year for about 3 months. Welsh public love live entertainment and it would be sad of the Welsh Government to give in to the likes of animal rights groups. All our animals are fit and healthy and enjoy their life on tour with the circus".*

**Cwestiwn 9: Hoffem gael eich barn am y ffordd y gallai trwyddedu neu gofrestru Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid effeithio ar y Gymraeg, yn benodol ynglŷn â:**

a. **chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a**

b. **trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.**

Ni chafwyd ateb gan yr un ymatebydd i ran a. Ychydig o ymatebwyr atebodd ran b. Mae'r rheini a ymatebodd yn teimlo na fyddai'n cael effaith.

**Cwestiwn 10: Yn eich barn chi, beth fyddai'r effeithiau? Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Teimlad un ymatebydd, a oedd am aros yn ddienw, oedd y byddai'n cael effaith gadarnhaol: *"Any effect would be positive, as licensing or registration would provide a further opportunity for bilingual literature and communication, thus promoting the use of the Welsh language".*

**Cwestiwn 11: Nodwch hefyd sut y credwch y gellir llunio'r polisi arfaethedig neu ei newid fel y gall:**

a. **effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg,**

b. **sicrhau nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin yr Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Ychydig a ymatebodd i'r cwestiwn hwn. Dywedodd y rheini a atebodd y cwestiwn na châi effaith negyddol ar y Gymraeg ac na fyddai rheswm dros drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 12: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi.**

Cafwyd yr ateb canlynol gan Four Paws: *"Four Paws strongly argues for the use of animals for entertainment to be banned. The complex needs of animals cannot be met by MAEs, and this is particularly the case for wild animals. Four Paws suggests that the first step in the right direction would be for Wales to enact a ban on the keeping of wild animals in all MAEs. In the short-term, a ban on the breeding, trade and replacement of wild MAE animals should be implemented.."*

Dywedodd un ymatebydd, a oedd am aros yn ddienw fel a ganlyn: *"The proposed licensing of mobile businesses which use animals in Wales is a positive step which would permit the scrutiny of the businesses, and more importantly, the assessment and monitoring of the treatment and welfare of the animals involved. (Robust procedures should be put in place to ensure that this scrutiny is continuous and effective.) However the exploitation of animals for commercial purposes should be phased out".*

Mae Mid Wales Falconry yn credu y byddai'n gam cadarnhaol i sicrhau bod arddangosfeydd llai proffesiynol yn cael eu trwyddedu/cofrestru: "*In my experience with Falconry displays on the whole the professional displays are very good and on the whole educational. However I have seen on many occasions so called charities turning up and using the birds in handling situations with inappropriate methods and misinformation passing birds from person to person for a fee. And allowing inappropriate stroking this should not be so. Livestock are a*

*very important aspect to country shows and should be maintained by using the Legislation currently in place".*

## 3. Camau Nesaf

Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn, y cyntaf o'i fath ar y pwnc hwn, eu defnyddio i benderfynu ar y camau nesaf.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn gytûn y dylai fod yna drefn ar gyfer trwyddedu neu gofrestru Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid. Trwyddedu a ffafriwyd gan y mwyafrif. Byddwn yn gweithio nawr gydag asiantaethau gorfodi a rhanddeiliad i ddatblygu trefn ar gyfer trwyddedu Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid. Wrth wneud, rhoddwn ystyriaeth i'r ymgynghoriad hwn, yn enwedig o ran y diffiniad ac eithrio rhai mathau o ADA, gan ddibynnu ar eu pwrpas.

Cyn datblygu trefn drwyddedu, bydd angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

Rhaid cydnabod y teimladau cryfion ymhlith yr ymatebwyr o blaid gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru. Bydd swyddogion yn para i weithio gyda Defra a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i ystyried materion trawsffiniol.

# Atodiad A

## Rhestr o'r cyrff a'r sefydliadau a ymatebodd

Animal Consultants and Trainers Association
Animal Defenders International
Animal Protection Agency
Cymdeithas Milfeddygon Prydain
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Canine Concern Scotland Trust
Captive Animals' Protection Society
Dogs Trust
Four Paws UK
Ffederasiwn y Diwydiant Anifeiliaid Anwes
Y Groes Las
Y Gynghrair Cefn Gwlad
Into The Wild Animal Encounters
Irish Society for the Prevention of Cruelty to Animals
Mid wales falconry
Producers Alliance for Cinema and TV (PACT)
PETA
Professional Animal Encounters Association
RSPCA Cymru
The Kennel Club
The Hawk Board
Undeb Amaethwyr Cymru
Urdd Syrcasau Prydain Fawr